



08.01.21

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Gobeithio eich bod chi gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru heddiw, dyma diweddariadau cyfredol o ysgol.

Dychwelyd i'r Ysgol

Fe all y wybodaeth hon dal i newid yn dilyn unrhyw adolygiadau LIC a BCBC.

Mae ein darpariaeth o gefnogi i plant gweithwyr critigol a phlant bregus ar y safle yn ystod oriau ysgol arferol nawr wedi estynnu hyd at ddydd Gwener 29 Ionawr.

Os ydych chi'n weithiwr critigol (fel ei ddiffinnir yn y llythyr wedi dyddio 04.01.21) ac angen cefnogaeth ysgol fe allwch gwblhau ffurflen ar-lein i ofyn am le. Bydd linc i'r ffurflen yn cael eu danfon atoch bob prynhawn dydd Llun a bydd y ffurflen yn fyw hyd at 12 canol dydd bob dydd lau. Mae rhain yn ein helpu ni i gynllunio lefelau staffio, darpariaeth pryd bwyd ysgol a thrafnidiaeth ysgol priodol.

Os ydych wedi cadw lle i ac nad oes angen y ddarpariaeth arnoch mwyach, rhowch wybod i ni trwy e-bost i swyddfa'r ysgol.

Byddwn yn cysylltu gyda chi os, ar unrhyw adeg, mae meini prawf gweithwyr critigol BCBC yn newid. Bydd staff ysgol perthnasol yn cysylltu â rhieni / gofalwyr disgyblion a nodwyd fel disgybl bregus i gynnig cefnogaeth.

Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw wybodaeth ynghylch pryd y gallwn groesawu pob disgybl yn ôl.

Gwaith Ysgol

Bydd pob disgybl, p'un ai ar y safle neu'n dysgu gartref, yn derbyn ac yn cael mynediad at yr un gweithgareddau dysgu. Mae ein darpariaeth ar-lein yn cael ei ddatblygu, adolygu a gwerthuso'n rheolaidd i sicrhau addysg parhaus i bawb.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnig:

- Sesiynau 'checkin' dosbarth byw ar lein i gyflwyno'r gwaith am y diwrnod ac i gynnig cymorth ar gyfer y tasgau a osodwyd, gan ddefnyddio Timau MS ar Hwb
- Sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw ar fideo a sain i gefnogi dysgu, y gall disgyblion eu hailchwarae yn ôl yr angen i gynorthwyo dealltwriaeth
- Straeon, caneuon a rhigymau wedi'u recordio ymlaen llaw ar gyfer dysgwyr iau
- Tafleni gwaith ysgol a gweithgareddau addas, ar gyfer gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan
- Dolenni fideo neu daflenni gwaith gan ddarparwyr addysgol a argymhellir
- Benthyciad technoleg, os oes angen
- Cefnogaeth ar gael gan staff yr ysgol trwy blatfform cyfathrebu'r grŵp blwyddyn ac e-byst
- Cefnogaeth ar gael ar gyfer ymholiadau trwy swyddfa'r ysgol

Rydym wedi darparu ystod o weithgareddau i'ch plant, sy'n heriol ac yn hwyl. Rydym yn deall, i lawer ohonoch, bod cefnogi eich plentyn / plant yn dysgu gartref yn heriol ac rydym yn gwybod bod llawer ohonoch chi a llawer o aelodau ein staff yn gweithio gartref gyda chyfrifoldeb am blant ar yr un pryd. Mae hon ymhell o fod yn sefyllfa ddelfrydol ac rydym yn edrych ymlaen at y diwrnod pan allwn groesawu pob plentyn yn ôl i'r ysgol yn ddiogel a chael ein coridorau unwaith eto wedi'u llenwi â sŵn a chwerthin.

Mae rhai plant yn caru gwaith ysgol ac yn hapus i gwblhau tasgau ar lein, ond nid yw hyn yn wir am bob plentyn. Chi yw'r arbenigwyr ar eich plant eich hun a'ch sefyllfa deuluol eich hun ac felly rydym yn gwerthfawrogi y bydd rhai ohonoch yn dymuno neu angen dewis ychydig o weithgareddau ac efallai na fydd hyn o fewn yr oriau ysgol arferol. Mae hyn yn hollol ddealladwy a rhaid i les teuluol ddod yn gyntaf. Yn yr ysgol nid yw hyd yn oed y plant cynradd hynaf yn treulio'r dydd ar y cyfrifiadur. Maen nhw'n cael dadleuon a thrafodaethau, sesiynau awyr agored, amseroedd chwarae, sesiynau ymarferol a chorfforol a gweithgareddau cerddorol. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu pan fydd y plant yn ôl yn yr ysgol i ddal i fyny ar unrhyw bynciau pwysig y maent wedi'u colli; dyma beth rydyn ni wedi'i hyfforddi a'n cymhwyso i'w wneud ac nid oes angen i chi boeni am hyn.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch o gwbl yn ystod y cyfnod yma o gloi'n rhannol, p'un a yw'n addysgiadol neu'n fugeiliol, peidiwch ag oedi cyn e-bostio swyddfa'r ysgol ar admin.broogwr@bridgend.gov.uk

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes

Sharon Jayne

Pennaeth